

**AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL  
(Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)**

**20 Mehefin 2018**

Yn bresennol: Y Cynghorydd P Baker, y Cynghorydd Mrs D Clements, y Cynghorydd M Evans, Mrs G Hayward, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, y Cynghorydd M James, y Cynghorydd PJ Morgan, y Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, Mr AE Sangster, y Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00a.m. – 10.20a.m.)

**1. Ethol Cadeirydd**

Dywedodd y Prif Weithredwr mai un enwebiad a ddaeth i law ar gyfer swydd y Cadeirydd; Mrs G Hayward.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ethol Mrs G Hayward yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

*[Daeth Mrs G Hayward i'r Gadair a bu'n llywyddu am weddill y cyfarfod.]*

**2. Diolchiadau'r Cadeirydd**

Diolchodd Mrs G Hayward i'r Aelodau am ei hethol yn Gadeirydd am ail dymor, ac am eu cymorth yn ystod y flwyddyn flaenorol; roedd ymroddiad yr Aelodau, eu gwybodaeth a'u cyngor bob amser yn destun balchder iddi. Dymunodd ddiolch i Mr AE Sangster am ei gefnogaeth fel Dirprwy Gadeirydd dros y flwyddyn a aeth heibio, ac i'r Prif Weithredwr a'r swyddogion oll am fod mor barod i roi o'u gwybodaeth a'u cyngor yn ystod ei blwyddyn gyntaf fel Cadeirydd.

Aeth rhagddi i ddiolch i bawb am y negeseuon caredig a'r gefnogaeth a gafodd yn dilyn colli ei gŵr yn ddiweddar. Bu hyn yn gysur mawr iddi ar adeg anodd, ac am hynny, diolchodd yn dwymgalon i bawb.

**3. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd mai un enwebiad a ddaeth i law ar gyfer swydd y Dirprwy Gadeirydd: Mr AE Sangster.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ethol Mr AE Sangster yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**4. Diolchiadau'r Dirprwy Gadeirydd**

Diolchodd Mr AE Sangster i'r Aelodau am eu cefnogaeth, gan ddweud ei bod yn anrhydedd iddo gael parhau yn Ddirprwy Gadeirydd am ail dymor.



## 5. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol oddi wrth Mr A Archer, y Cynghorydd K Doolin, y Cynghorydd P Harries, y Cynghorydd P Kidney a'r Cynghorydd S Yelland.

Dywedodd y Cadeirydd bod y Cynghorydd P Harries a'r Cynghorydd P Kidney wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar yn cael triniaeth, a gobeithiai y byddent ill dau yn cael adferiad llwyr yn fuan.

## 6. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

## 7. Aelodaeth o Bwyllgorau a Sefydliadau Allanol

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd ei bod yn arferiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i adolygu aelodaeth Pwyllgorau a Grwpiau'r Awdurdod, ynghyd â chynrychiolaeth yr Awdurdod ar gyrrff allanol.

Hefyd, dywedodd wrth yr Aelodau y byddai cyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod pan fyddai enwau Cadeiryddion y Pwyllgorau a'u haelodaeth, erbyn hynny'n hysbys.

Dywedodd y Cynghorydd R Owens ei fod yn gwasanaethu ar Bwyllgor Cadwraeth Ynys Sgomer fel cynrychiolydd Cyngor Sir Penfro. Roedd y Pwyllgor yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, a gan yr ystyrir bod yr ynys yn rhan o'r Parc Cenedlaethol, barnai y dylai'r Awdurdod hefyd gael ei gynrychioli ar y Pwyllgor.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) cytuno ar yr aelodaeth a ganlyn ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ei Bwyllgorau a'i Grwpiau:

### **AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL**

Pob Aelod

### **Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU**

Pob Aelod

### **Y PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL (6 CSP, 3 LIC)**

Y Cynghorydd P Baker  
Y Cynghorydd Mrs D Clements  
Y Cynghorydd M James

Mr A Archer  
Mrs G Hayward  
Dr R Heath-Davies



Y Cynghorydd P Kidney  
Y Cynghorydd R Owens  
Y Cynghorydd M Williams

**Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL** (6 CSP, 3 LIC)

Y Cynghorydd K Doolin	Mrs J James
Y Cynghorydd ML Evans	Dr RM Plummer
Y Cynghorydd P Harries	Mr AE Sangster
Y Cynghorydd PJ Morgan	
Y Cynghorydd A Wilcox	
Y Cynghorydd S Yelland	

**Y PWYLLGOR PERSONÉL** (6 CSP, 3 LIC)

Y Cynghorydd Mrs D Clements	Mrs G Hayward
Y Cynghorydd ML Evans	Dr R Heath-Davies
Y Cynghorydd M James	Mrs J James
Y Cynghorydd PJ Morgan	
Y Cynghorydd A Wilcox	
Y Cynghorydd S Yelland	

**FFORWM GWEITHWYR** (4 CSP, 2 LIC)

Y Cynghorydd P Harries	Mr A Archer
Y Cynghorydd P Kidney	Dr RM Plummer
Y Cynghorydd R Owens	
Y Cynghorydd M Williams	

**GRŴP GWELLIANT PARHAUS** (4 Aelod)

Cadeirydd, Awdurdod Parc Cenedlaethol  
Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol  
Cadeirydd, Pwyllgor Adolygu Gweithredol  
Cadeirydd, Pwyllgor Rheoli Datblygu

**GWEITHGOR Y STRATEGAETH DATBLYGU AELODAU** (3 Aelod)

Y Cynghorydd M James	Mr A Archer
	Dr RM Plummer

**PWYLLGOR Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY** (4 CSP, 2 LIC)

Y Cynghorydd K Doolin	Mrs J James
Y Cynghorydd M James	Mr AE Sangster
Y Cynghorydd M Williams	
Y Cynghorydd S Yelland	



## **PANEL PENODI Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd, Awdurdod Parc Cenedlaethol  
Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol  
Y Cynghorydd S Yelland  
Un Aelod lleyg

- (b) nodi'r aelodaeth a ganlyn o'r Pwyllgor Safonau:

### **Y PWYLLGOR SAFONAU** (2 CSP; 1 LIC ynghyd â thri Aelod *Annibynnol*)

Y Cynghorydd PJ Morgan	Mr A Archer	Mr J Daniels
Y Cynghorydd R Owens		Mrs V Tomlinson
		Mrs J Wainwright

- (c) cymeradwyo'r gynrychiolaeth a ganlyn ar gyrff allanol ar gyfer 2018/19:

### **PWYLLGOR GWEITHREDOL PARCIAU CENEDLAETHOL Y DU**

Cadeirydd yr Awdurdod	Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ( <i>Dirprwy</i> )
-----------------------	---

### **PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU**

Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod

### **CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU**

#### **Y CYNGOR**

Y Cynghorydd M James	Cadeirydd yr Awdurdod ( <i>Dirprwy</i> )
----------------------	---

#### **PWYLLGOR CYD-LYNU**

Cadeirydd, Parciau Cenedlaethol Cymru

#### **CYD-GYNGOR CYMRU**

Y Cynghorydd M Williams	Y Cynghorydd R Owens ( <i>Dirprwy</i> )
-------------------------	--

#### **CYNGOR PARTNERIAETH CYMRU**

Cadeirydd yr Awdurdod

### **YMGYRCH Y PARCIAU CENEDLAETHOL** (*Un Aelod*)

Mrs G Hayward

### **CYNGHRAIR Y PARCIAU CENEDLAETHOL** (*Un Aelod*)

Mr AE Sangster



**GRŴP YMGYNGHORI/GRŴP ARFORDIR BAE ABERTEIFI**

Y Cynghorydd M James

Y Cynghorydd P Harries  
(*Dirprwy*)

**PWYLLGOR YMGYNGHORI PORTHLADD ABERDAUGLEDDAU** (*Un Aelod a Dirprwy*)

Mr AE Sangster

Y Cynghorydd S Yelland  
(*Dirprwy*)

**FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR BENFRO** (*Un Aelod*)

Y Cynghorydd P Harries

**GWEITHGOR AGREGAU RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU –  
FFORWM AELODAU'R DATGANIAD TECHNEGOL RHANBARTHOL**  
(*Un Aelod a Dirprwy*)

Mr A Archer

Y Cynghorydd M James (*Dirprwy*)

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL COLEG SIR BENFRO**

Y Cynghorydd M James

- (d) cadarnhau cyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau yn y cyfarfod nesaf pan fyddai holl Gadeiryddion/Dirprwy Gadeiryddion yr amryfal Bwyllgorau wedi cael eu hethol.

